

DOLEN Y TAB 101

8–9 Ebrill 2022

Oedfa Sul y Blodau am 11

Yng nghwmni'r

Parchedig Aled Edwards a Helen Prosser
gyda Bethan Roberts wrth yr organ

YR OEDFAON NESAF

Ebrill

- 17 Sul y Pasg a Chymun gyda'r Parchedig Eirian Rees a Rhiannon Humphreys
- 24 Allan James

Mai

- 1 Ann ac Emlyn Davies
- 8 Y Parchedig Aled Edwards a Iestyn Morris
- 15 Sul Cymorth Cristnogol

Hefyd ddydd Sul 10 Ebrill

12:00 Oedfa Radio Cymru

Oedfa ar gyfer chwe Sul y Grawys dan arweiniad Ieuan Wyn Jones, Llangefni.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19:30 Dechrau Canu Dechrau Canmol – Sul y Blodau

Yr wythnos hon byddwn yn nodi Sul y Blodau. Bydd Nia yn Nhyddewi yn cwrdd â'r cyn-Esgob, y Gwir Barchedig Wyn Evans.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

DIOLCH YN FAWR

Diolch yn fawr i bawb gyfrannodd gacennau ar gyfer Sesiwn Flasu Cynllun Eglwysi Dementia-gyfeillgar Undeb yr Annibynwyr ym Methlehem, Gwaelod-y-garth ddydd Sadwrn diwethaf. Roedd y plateidiau swmpus ar bob bwrdd yn rhan hanfodol o brynhawn hwyliog a difyr.

Ann Dwynwen

Un Cam Bach

Erbyn hyn gobeithio bod y mwyafrif ohonoch wedi gweld neges Edwyn, Cadeirydd y Bwrdd, am y penderfyniad a wnaed gan y Bwrdd yn eu cyfarfod nos Fawrth i lacio ychydig ar gyfyngiadau'r rhai sy'n mynychu'r oedfaon ar y Sul. Ond rhag ofn na welsoch ei neges, dyma'r hyn y cytunwyd iddo:

Cam 1: Am weddill Ebrill (Suliau 10,17 a 24) ni fydd angen archebu sedd ymlaen llaw er mwyn mynychu'r cwrdd, nac ychwaith i ymbellhau'n gymdeithasol, **OND** bydd gofyn i bawb sy'n eistedd ar y llawr gwaelod wisgo gorchudd wyneb. I'r rhai sydd am ddiosg eu mwgwd, gofynnir iddynt eistedd yn y galeri. Bydd gofyn i bawb barchu gofod y rhai o'u cwrdd wrth ddewis eu sedd.

Cam 2: Os na fydd cynnydd mawr yn y pandemig yn y cyfamser, o fore Sul 1 Mai ymlaen ni fydd unrhyw orfodaeth i wisgo mwgwd nac i ymbellhau'n gymdeithasol (h.y. byddwn yn dychwelyd at y trefniant oedd yn bodoli cyn dyfodiad Covid-19).

Ar sail yr ymatebion amrywiol a dderbyniwyd i'r arolwg yn gwahodd barn y gynulleidfa ar y ffordd orau ymlaen, roedd aelodau'r Bwrdd yn ymwybodol iawn y bydd nifer sylweddol o'r farn na ddylid llacio'r cyfyngiadau o gwbl am y tro, tra bod carfan arall yr un mor niferus eu rhif o blaid gollwng y cyfyngiadau i gyd o'r dydd Sul yma ymlaen.

Dim ond wedi astudio canlyniadau'r arolwg yn fanwl a gwyntyllu'r dewisiadau posib yn drwyadl y daeth y Bwrdd i'r casgliad uchod. Gobeithir y bydd y gynulleidfa o'r farn fod y penderfyniad yn un teg a chytbwys, ac y bydd pawb yn derbyn y trefniant dros dro hwn gan fawr obeithio y byddwn yn camu i'r normalrwydd newydd o ddechrau Mai.



Banciau Bwyd

Erbyn hyn, mae'r Tabernacl yn cefnogi dau fanc bwyd lleol. Mae modd cyfrannu arian drwy drosglwyddiad banc neu siec, a bydd yr arian yn cael ei rannu rhwng Banc Bwyd Taf Elái, sydd bob amser yn barod i helpu unigolion anghenus a banciau bwyd llai pan fo angen, a Banc Bwyd Salem, sy'n diwallu angen mawr yn lleol.

Mae casgliad bwyd ar gyfer Banc Bwyd Salem hefyd, a gellir dod â chyfraniadau bwyd i'r oedfa ar fore Sul, neu rhwng 10 a 12 bob bore lau neu fore Sadwrn.

Mae'r galw mor fawr ag erioed, a'ch haelioni chi'n ddi-ball. Mae eich cyfraniadau dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn enwedig adeg cyfyngiadau Covid, wedi bod yn amhrisiadwy.

Diolch yn fawr iawn i chi i gyd.

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

Dymuniadau Gorau

Estynnwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Iwan West sydd wedi treulio'r wythnos hon yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Edrychwn ymlaen at ei groesawu'n ôl i'n plith unwaith yn rhagor.

Pigion o'r Wasg

Yn E-Fwletin Cristnogaeth21 fore Sul 27 Mawrth, mae'r cyfrannwr yn adrodd mai profiad chwerwfelys oedd darllen am sefydlu Tŷ Croeso, Bethlehem Newydd, San Clêr ym mwletin Cristnogaeth21 yr wythnos flaenorol. Tra'n croesawu'r datblygiadau cyffrous sydd ar y gweill yno dan nawdd Rhaglen Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr, gresynai wrth sylweddoli mai prin iawn yw'r achosion hynny ar hyd a lled Cymru 'sy'n barod i newid er mwyn cwrdd ag anghenion cymdeithas heddiw' cyn mynd yn ei flaen i gwestiynu – onid dyma ddylai fod yn ddiben a phwrpas pob capel ac eglwys?

Mae'n cydnabod bod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi agor ein llygaid i weld pa mor fregus yw sefyllfa llawer o achosion, ond ffolineb yw rhoi'r bai i gyd am hyn ar Covid oherwydd gellir olrhain dirywiad cyson dros y deugain mlynedd diwethaf. Er bod y capeli wedi gwyntyllu'r problemau sy'n eu hwynebu ers blynyddoedd lawer, gan arwain at fân newidiadau er mwyn ceisio denu aelodau newydd, y gwir yw 'mae'r amser i wneud newidiadau bychain wedi hen fynd heibio'. Y cwestiwn sydd angen ei ofyn bellach yw beth mewn gwirionedd yw diben chwilio am aelodau newydd os mai yn unig er mwyn glynu at yr hen ffyrdd yw'r nod yn hytrach na derbyn mai gwir bwrpas eglwysi yw 'dilladu'r noeth, bwydo'r newynog a chroesawu'r dieithryn'.

O dan lach awdur y bwletin mae'r meddylfryd y dylid cadw drysau'r capel ar agor costied a gostio trwy lynu at drefnu oedfa achlysurol ar y Sul, cynnal ambell fore coffi i godi arian at yr achos, a threfnu casgliad i Cymorth Cristnogol unwaith y flwyddyn yn sicr o arwain at ohirio cau'r drysau am gyfnod byr yn unig. Dan yr amgylchiadau hyn daw i'r casgliad nad oes unrhyw gywilydd i gynulleidfaoedd benderfynu dirwyn achos i ben, gan ddatgan 'Gwell cau'r drws a chefnogi'r rhai sy'n barod i gwrdd ag anghenion y cymunedau rydym yn rhan ohony'n nhw heddiw. Heb bwrpas eglur, nid oes dyfodol.'

I ddarllen yr erthygl gyfan ewch i [E-fwletin 27 Mawrth 2022 | Cristnogaeth 21](#)



CASGLIAD Y PASG



DAETH HI'N AMSER CASGLU WYAU PASG ETO!

Bydd y capel ar agor **ar foreau lau a Sadwrn tan Ebrill 14^{eg}** i dderbyn eich rhoddion o wyau Pasg a danteithion, neu gallwch ddod â nhw i'r oedfa ar fore Sul.

Bydd y cyfan yn cael ei rannu rhwng Cymorth i Ferched Cymru, hosteli Pobl, a phobl ifanc sydd newydd adael gofal.

DIOLCH YN FAWR I CHI AM EICH CEFNOGAETH

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

ARGYFWNG WCRÁIN

A ninnau i gyd wedi ein brawychu gan erchyllterau Pwtin yn Wcráin, bu cryn holi a dyfalu am y ffordd orau i helpu'r bobl yn y fath argyfwng, yn yr hir-dymor yn ogystal ag ar frys. Penderfynwyd ein bod yn cefnogi apêl a sefydlwyd gan Cymorth Cristnogol, sef:

UKRAINE CRISIS APPEAL – CHRISTIAN AID

Mae Cymorth Cristnogol bob amser yn gweithio gyda phartneriaid lleol ym mhob argyfwng, ac yn medru saernïo eu cymorth yn effeithiol, a ninnau wedi ymateb i argyfyngau drwyddyn nhw yn y gorffennol. Drwy anfon arian atyn nhw yn enw'r Tabernacl, fe wyddom y bydd yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau a mwyaf effeithiol.

Gallwch wneud trosglwyddiad banc:

Cod didoli: 30 - 96 - 72

Rhif cyfrif : 03607499

gan nodi **Apêl Wcráin Cymorth Cristnogol. Neu**

Gallwch anfon sicr at ein trysorydd:

Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU

yn daladwy i Capel y Tabernacl Cyf., gan nodi ar gefn y sicr

Apêl Wcráin Cymorth Cristnogol. Neu

Gallwch roi cyfraniad mewn amlen yn y blwch casglu yn y cyntedd, gan nodi **Apêl Wcráin Cymorth Cristnogol.**

DIOLCH YN FAWR

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol



PANED A CHLONG

Dewch am glonc gyfeillgar ac hamddenol

CUPPA AND A CHAT

Come for a friendly and relaxed chat



Bob Dydd Mawrth
Every Tuesday
10.30-12.00

Y Ganolfan
Capel Tabernacl
The Vestry,
Tabernacl Chapel

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk